

CYNGOR BRO LLANGELER – 25- 04-2022

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Ebrill 25ain 2022 trwy Zoom am 7.30y.h.

1. **04/22 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. D Evans Cyngorwyr: Jamie Ayres, John Crossley, Richard Evans, Aled Eynon, Brenda Jones, Ken Howell, Marc Rees, Dilwyn Smith. Clerc – Stella Jones.
2. **04/22 YMDDIHEURIADAU:** Cyng:- J Wigley, C Jones, N Jones, A Thomas
3. **04/22 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** ni fydd y Cyng K Howell yn cymryd rhan yn y drafodaeth yn adran Ceisiadau Cynllunio a ddaw gerbron y Cyngor.
4. **04/22 HEDDLU:** – Ymddiheiriad
5. **04/22 COFNODION:** Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Misol Mawrth 28ain 2022.
Cynnig – Cyng K Howell Eilio – Cyng D Smith
6. **04/22 MATERION YN CODI COFNODION**
6.xx. Lês Cae Chwarae Maesyderi, Pentrecwrt – *dwedodd Cyng K Howell ei fod wedi bod mewn cyfarfod ac fe benderfynnwyd yn y cyfarfod gan bod pwyllgor newydd wedi ei ffurfio yn Neuadd Pentrecwrt efallai y byddai ganddyn nhw ddi-ddordeb mewn cymryd gofalaeth o'r Parc a byddai'r mater yn cael ei ystyried mewn 6 mis. Clerc y Cyngor i ofyn i'r cyfreithiwr beth sy'n mynd i ddigwydd petai hyn yn digwydd ac hefyd os yw'r les wedi mynd ar goll gyda pwyllgor Parc Saron*
11.5.02/21 Biniau Sbwriel i Rhos a Waungilwen – *biniau yn eu lle*
10.ii.05/21 Ciosgau Ffôn – *heb gael ateb wrth Owain Thomas ynghylch y gwaith*
10.iii.05/21 Bwrdd Llwybrau Gwlân + Cwmhiraeth – *heb gael cadarnhad wrth Owain Thomas ynghylch y gwaith mae wedi gwneud un Drefelin yn ddiogel*
10. i.02/22 Gosod Plac Caeau Canmlwyddiant ar wal Parc Puw – *Dadorchuddiwyd y plac gan Uwchgaptin(wedi ymddeol) Ian Salmon, Pentrecagal ar Sadwrn Ebrill 23ain am 2yp sydd nawr yn dynodi bod Cae Parc Puw yn gae Canmlwyddiant. Nodwyd bod y Cadeirydd wedi lliwio'r seremoni yn arbennig a diolchwyd i bawb a ddaeth i'r seremoni. Awgrymwyd y byddai'n syniad i gael rhyw fath o blac i nodi pwy ddadorchuddiodd y plac a bod y Cyngor Bro yng nghlwm a'r peth – Clerc i wneud ymholiadau ynghylch hyn. Clerc hefyd i anfon llythyr o ddiolch i Ian Salmon ac fe cytunwyd dylid rhoi llun wedi fframio iddo o'r achlysur.*
7. **04/22 GOHEBIAETH:**
 - i. – Phillips, Penllwyn – rhoi'r tir yn ôl i'r cyngor – *cyfarfod safle ar yr 8ed o Fai am 5yp*
 - ii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 28.03.2022 - 01.04.2022 – *cylchlythyrwyd*
 - iii. ebost – ULIC – Bwletin Newyddion – *cylchlythyrwyd*
 - iv. ebost – CSG – *cau ffordd dros dro - yr C1297 Felindre, Llandysul –cylchlythyrwyd*
 - v. ebost – CSG – Cau hewl ar frys C1295 Drefach-Felindre, Llandysul – *cylchlythyrwyd*
 - vi. ebost – ULIC – *Mae ceisiadau ar gyfer Cynllun Prentisiaeth Llywodraeth Cymru 2022 bellach ar agor! – cylchlythyrwyd*
 - vii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 04.04.2022 - 08.04.2022 – *cylchlythyrwyd*
 - viii. ebost – CSG – Plannu ar gyfer Pryfed Peillio – *cylchlythyrwyd*
 - ix. ebost – Cylchlythyr CIC Hywel Dda mis Ebrill – *cylchlythyrwyd*
 - x. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 11.04.2022 - 15.04.2022 – *cylchlythyrwyd*
 - xi. ebost – CSG – cau ffordd dros dro U5470 Drefelin - Felindre, Llandysul – *cylchlythyrwyd*
8. **04/22 CYNLLUNIO**
PL/03755 - Gelligynnar Isaf, Felindre, Llandysul, SA44 5XW – Adeiladu annedd dau lawr gan gynnwys dymchwel yr adeilad presennol, cadarnhawyd i fod yn gyfreithlon dan Tystysgrif O Ddatblygiad Cyfreithlon PL/00865 ynghyd a gosod system trin dŵr budr ac unrhyw waith cysylltieddi - *cylchlythyrwyd - dim gwrthwynebiad*
PL/03816 – Treale, Felindre, Llandysul, SA44 5XU - Codi to dros clamp silwair sydd yno'n barod - *cylchlythyrwyd – dim gwrthwynebiad*
9. **04/22 MATERION ARIANNOL**
 1. a. **Anfonebau**
TRYWYDD [cytunwyd i roi caniatad i'w dalu pan daw'r anfoneb i law].....
SOLUTIONS FACTORY£75.60
SSE[Golau Nadolig- anfoneb diwygiedig].....£78.09
Arian yn y Banc ar 13/04/2022.....£32,118.62
 - b. **S/O**
Cyflog y Clerc £480.00
 - c. **Credid**
Ad Daliad TAW.....£5,154.64
Cwmmins Waungilwen£480.00

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

10. 04/22 MATERION ANGEN TRAFODAETH

1. Diffibrilwyr – Cytunwyd bod angen rhyw ffordd o hysbysebu i'r cyhoedd /trigolion lle mae pob diffibrilydd wedi ei leoli ac y dylid ei roi ar Agenda cyfarfod mis Mehefin ac i bawb yn y cyfamser i feddwl am ateb addas i hyn.

11. 04/22 SYLWADAU'R CYNGHORWYR

1. Cyng B Jones – i. Gan ei bod yn ymddeol o'r Cyngor a taw hwn oedd ei chyfarfod olaf diolchodd i bawb am ei cyfeillgarwch ac fe ddymunodd yn pob llwyddiant i'r cyngor yn y dyfodol
2. Cyng M Rees – i. dwedodd nad oes dim yn dal i fod wedi cael ei wneud ynghylch y llwybr rhwng Davies&Davies a Phwllmarl – *Clerc i ddilyn lan ar y mater*
3. Cyng D Smith – i. er gwybodaeth dwedodd bod y cais cynllunio tu ôl i tai cyngor Oaklands wedi cael ei wrthwynebu oherwydd y coed derw.
4. Cyng K Howell – i. dwedodd ei fod wedi cael cais yng nghyfarfod Cae Chwarae Saron i'r Cyngor Bro dalu am yr yswiriant dros y ddwy flynedd ddiwethaf – *cytunwyd i'w roi ar Agenda'r cyfarfod nesaf*
4. Cyng D Evans – i. Diolchodd i'r cyfieithydd Catrin Llwyd.
ii. Diolchodd yn swyddogol i'r Cynghorwyr sydd yn ymddeol ym mis Mai sef Cyng. – Brenda Jones, Nesta Jones, Christopher Jones a John Wigley a'r Clerc i anfon llythyr o gydnabyddiaeth am ei gwasanaeth i'r plwyf ar hyd y blynyddoedd.

12. 04/22 CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod Blynyddol a Misol nesaf ym mis Mai ar y 30ain 2022 am 7.30yh yn Neuadd yr Eglwys Penboyr

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45yh

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad

COFNODION DRAFFT